

Cyflwyniad

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i gryfhau trefniadau asesiadau athrawon (Asesiadau Athrawon: Atgyfnerthu trefniadau i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder) o Ragfyr 2014 i Fawrth 2015. Roedd y cynigion yn cynnwys atgyfnerthu cymedroli clystyrau a chyflwyno rhaglen ddilysu allanol.

Un o ganlyniadau allweddol yr ymgynghoriad hwn oedd cyhoeddi rhaglen genedlaethol, gan ddechrau yn ystod haf 2015, i ddarparu dilysu allanol ar fathemateg a gwyddoniaeth ym mlwyddyn 1, gyda'r ffocws yn symud ym mlwyddyn 2 i: Saesneg/Cymraeg 2^{il} laith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg; a Chymraeg/Saesneg yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Dyfarnwyd y contract i reoli'r broses ddilysu i bartneriaeth yn cynnwys y pedwar consortia rhanbarthol, ADEW a CDSM Interactive Solutions. Aeth y 'Bartneriaeth' ati i reoli a gweithredu'r rhaglen ar y cyd ynghyd ag arweinyddion ysgolion ac arbenigwyr pwnc.

Prif ffocws y rhaglen oedd atgyfnerthu cywirdeb a chysondeb asesiadau athrawon drwy adborth o ansawdd uchel i athrawon, prifathrawon a'r holl randdeiliaid allweddol. Mae Llywodraeth Cymru a'r 'Bartneriaeth' yn ystyried y rhaglen yn gam ymlaen tuag at ailadeiladu hyder yn y system.

Y Rhaglen

Gwnaed nifer o dasgau allweddol, gyda'r bwriad o wneud y canlynol:

- Datblygu prosesau a gweithdrefnau cyffredin ar gyfer y broses Ddilysu, gan gynnwys templedi cyffredin i'w defnyddio gan bob dilysydd a Dilyswyr Arweiniol.
- Cyflwyno rhaglen hyfforddi gyson yn genedlaethol ar gyfer pob Dilysydd a Dilysydd Arweiniol.
- Datblygu a gweithredu methodoleg samplo ysgolion, er mwyn ymweld â 10% o ysgolion Cymru.
- Datblygu proses genedlaethol i ymdrin ag unrhyw anghytundeb mewn dyfarniadau
- Darparu gwybodaeth allweddol i ysgolion dethol am y broses a'r ymweliad â'r ysgol
- Sefydlu mesurau Sicrhau Ansawdd i sicrhau bod prosesau a gytunwyd yn cael eu dilyn a bod adroddiadau'n cael eu cwblhau yn unol â'r canllawiau cenedlaethol
- Comisiynu adolygiad annibynnol allanol o'r rhaglen
- Darparu'r holl ddeunyddiau ac adnoddau'n ddwyieithog.

Dyrannu Dilyswyr

Penododd pob consortiwm Ddilysydd Arweiniol i fod yn gyfrifol am dîm o ddilyswyr ac i oruchwylio'r broses ddilysu yn ardal consortiwm gwahanol i'w consortiwm eu hunain.

- Dilysydd Arweiniol ar gyfer Consortiwm Canolbarth y De (CSC) o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS)
- Dilysydd Arweiniol ar gyfer EAS o CSC
- Dilysydd Arweiniol ar gyfer ERW o GwE
- Dilysydd Arweiniol ar gyfer GwE o ERW.

Roedd y mwyafrif o ddilyswyr yn brifathrawon/arweinyddion pwnc ymarferol o ysgolion o fewn consortiwm y dilysydd arweiniol. I gryfhau hygrededd y rhaglen, ymgwymerodd aelodau'r tîm gyfran o ymweliadau mewn ardal consortiwm gwahanol i'w consortiwm eu hunain a'r prif un yr oeddynt wedi'u dyrannu iddo.

Blwyddyn 1 - Crynodeb o Ymweliadau

Anfonwyd cyfanswm o 55 o ddilyswyr i 149 o ysgolion. O'r ysgolion hyn:

- roedd 71 yn lleoliadau CA2 cyfrwng Saesneg
- roedd 35 yn lleoliadau CA2 cyfrwng Cymraeg
- roedd 28 yn lleoliadau CA3 cyfrwng Saesneg
- roedd 15 yn lleoliadau CA3 cyfrwng Cymraeg

Maen ysgolion cynradd roedd y dilysu'n canolbwyntio ar fathemateg a gwyddoniaeth. Dewiswyd ysgolion uwchradd ar gyfer un ai mathemateg (22) neu wyddoniaeth (21).

Fel rhan o'r rhaglen roedd yn ofynnol i ddilyswyr edrych ar broffiliau dysgwyr a gyflwynwyd i ddigwyddiadau cymedroli clwstwr a gwaith disgyblion a ddewiswyd ar hap.

Blwyddyn 1 - Camau

Roedd gwersi pwysig i'w dysgu o flwyddyn 1 y rhaglen. Defnyddiwyd y rhain i ddatblygu'r rhaglen ddilysu ymhellach ar gyfer Blwyddyn 2 – 2015-16.

Nododd yr adroddiad drafft cyntaf (Gorffennaf 2016) y tasgau yr oedd angen i'r consortia eu gwneud, yn ystod tymor yr hydref 2015, i'w galluogi i gefnogi eu hysgolion a'u clystyrau yn gyson, o ran atgyfnerthu a datblygu trefniadau asesiadau athrawon. O ganlyniad i hyn cyhoeddwyd y dogfennau canllaw canlynol:

- Arweiniad byr i asesiadau mewn ysgolion

Diogelu Asesiadau Athrawon - Rhaglen ddilysu allanol Adroddiad ar Gynnydd y Rhaglen - Medi 2016

- Canllawiau ar Gymedroli asesiadau athrawon ar gyfer ysgolion a chlystyrau 2015/2016
- Canllawiau penodol i bynciau ar gymedroli asesiadau athrawon ar gyfer ysgolion a chlystyrau 2015/2016.

Blwyddyn 1 - Crynodeb o'r Canfyddiadau

- Mewn sawl achos yr oedd dilyswyr yn cytuno â barn ysgolion. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth rhwng cyfnodau allweddol a phynciau. Canfuwyd hefyd fod ansawdd y dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi asesiadau athrawon yn amrywiol. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd gwaith disgyblion yn cynrychioli cwricwlwm llawn ac roedd asesiadau athrawon yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi'r lefelau a ddyfarnwyd. Fodd bynnag, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Cymru, yn gyffredinol roedd gwaith ychydig i ddisgyblion yn cynnwys tystiolaeth annigonol i'r dilysydd allu cytuno'r lefel.

Blwyddyn 2 - Rhaglen

Fel rhan o'r contract roedd nifer o newidiadau a gynlluniwyd o ran cyflwyno rhaglen blwyddyn 2. Roedd y rhain yn cynnwys

- Newid ffocws pwnc i: Gymraeg, Saesneg a Chymraeg 2^{il} Iaith
- Cynnydd ym maint y sampl i 15% o ysgolion ym mhob cyfnod allweddol
- Gweithredu cyfran fechan (10%) o ymweliadau i gyfarfodydd cymedroli clwstwr.

Yng ngoleuni'r gwersi a ddysgwyd drwy gyflwyno'r rhaglen ym mlwyddyn 1, argymhellodd Bwrdd y Bartneriaeth i Fwrdd Contract Llywodraeth Cymru:

- Cynnydd yn y gyfran o ymweliadau clwstwr i 20%, gyda sampl yr ymweliad ysgol yn gostwng yn unol â hynny i 10%, a oedd mewn gwirionedd yn aros yr un fath â blwyddyn 1.

Cytunwyd ar hyn a'i roi ar waith yn ddiweddarach.

Blwyddyn 2 - Crynodeb o Ymweliadau

Rhaid datgan ar y dechrau nad oes modd cymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd y newid yn y pynciau a ddilyswyd.

Anfonwyd cyfanswm o 59 o ddilyswyr i 154 o ysgolion. Recriwtiwyd dilyswyr o blith staff ysgolion gan y consortia, gan ddilyn canllawiau cyffredin. Lle nad oedd modd recriwtio staff o'r ysgol, recriwtiwyd nifer fechan o staff, gyda'r arbenigedd angenrheidiol, o dimau gwella ysgolion y consortiwm.

O'r ysgolion:

Diogelu Asesiadau Athrawon - Rhaglen ddilysu allanol Adroddiad ar Gynnydd y Rhaglen - Medi 2016

- roedd 88 yn lleoliadau CA2 cyfrwng Saesneg
- roedd 42 yn lleoliadau CA2 cyfrwng Cymraeg
- roedd 16 yn lleoliadau CA3 cyfrwng Saesneg
- roedd 8 yn lleoliadau CA3 cyfrwng Cymraeg

O'r clystyrau:

- roedd 16 yn rhai cyfrwng Saesneg – Saesneg
- roedd 14 yn gyfrwng Saesneg – Cymraeg 2^{il} laith
- roedd 7 yn gyfrwng Cymraeg – Cymraeg
- roedd 6 yn rhai cyfrwng Cymraeg – Saesneg

Ym mhob ysgol yr oedd dilysu yn canolbwyntio ar un pwnc a ddewiswyd ar hap ar gyfer yr ysgol unigol, ond gyda chydbwysedd yn unol â chyfran y lleoliadau yng Nghymru. Fel rhan o'r rhaglen roedd yn ofynnol i ddilyswyr edrych ar broffiliau dysgwyr a gyflwynwyd i ddigwyddiadau cymedroli clwstwr a gwaith tri o ddisgyblion a ddewiswyd ar hap.

Blwyddyn 2 – Prif Ganfyddiadau Cychwynnol

Cymedroli Clystyrau

- Mae trefn cyfarfodydd clystyrau wedi gwella. Caiff bron bob cyfarfod ei gadeirio gan brifathro neu uwch arweinydd a chânt eu rheoli'n effeithlon, gyda dyddiadau wedi'u cytuno ymhell ymlaen llaw.
- Mynychodd cynrychiolydd awdurdod lleol / consortiwm y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd clystyrau yr ymwelwyd â hwy. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hyn i gyflawni cyfrifoldebau statudol yr Awdurdod Lleol yng nghyswllt asesiadau athrawon.
- Yr oedd canllawiau'r consortia i ysgolion ddefnyddio llyfr dysgwr unigol, yn hytrach na samplau dethol o waith, yn darparu ystod ehangach o dystiolaeth i gyfranogwyr seilio'u barn arni. Fodd bynnag, roedd anghysonderau o hyd o ran defnyddio'r dull newydd hwn o weithredu.
- Mewn lleiafrif o achosion, roedd amrywiaeth yn y defnydd o sylwadau athrawon, o fewn a rhwng consortia. Mewn ychydig o achosion, golygodd hyn nad oedd digon o wybodaeth ar gael i gefnogi dyfarniad a oedd yn gweddu orau.
- Mae clystyrau yn defnyddio ystod o strategaethau i ddarparu tystiolaeth ar gyfer llafaredd a darllen. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio datrysiadau technegol i rannu tystiolaeth sain / fideo, gan gynnwys defnyddio codau Ymateb Cyflym (QR).

Diogelu Asesiadau Athrawon - Rhaglen ddilysu allanol Adroddiad ar Gynnydd y Rhaglen - Medi 2016

Yr oedd rhai clystyrau yn defnyddio cyfleusterau i lwytho tystiolaeth i fyny i wefan cyn y cyfarfod. Yr oedd y systemau hyn yn gwella'r ystod o dystiolaeth uniongyrchol a oedd ar gael yn y cyfarfodydd. Fodd bynnag, nid oedd yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd mewn cyfarfodydd clystyrau yn ddigon o ran ystod ac ansawdd i gefnogi dyfarniadau cywir ar gyfer llafaredd ac i raddau llai, darllen.

- Mewn rhai achosion, nid oedd digon o amser wedi'i ddyrannu i alluogi cymedroli pob proffil ar gyfer pob ysgol yn y clwstwr.
- Mae tystiolaeth fod her gynyddol gan gydweithwyr cynradd i'r uwchradd, yn enwedig yng nghyswllt gwaith ar Lefel 5 ac yn ansawdd y sylwadau.
- Nid yw sylwadau athrawon bob amser yn darparu cyd-destun ar gyfer y gweithgarwch nac yn nodi sut y mae'r disgybl wedi dangos nodweddion y lefel a ddyfarnwyd.
- Er bod gofyniad statudol i ysgolion roi penderfyniadau a dyfarniadau grŵp clwstwr cymedroli'r ysgol ar waith, mewn ychydig iawn o achosion lle ceir anghytundeb, nid oes unrhyw dystiolaeth i gadarnhau cydymffurfio diweddarach.
- Nododd nifer bychan iawn o benaethiaid yr angen am farn annibynnol lle yr oedd anghytuno'n digwydd.
- Mae bron bob clwstwr yn darparu adroddiad adborth cyffredinol ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau hyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer y clwstwr cyfan, fodd bynnag, dim ond lleiafrif sy'n darparu adborth manwl i ysgolion unigol.

Dilysu Ysgolion

Ym mlwyddyn 2 y rhaglen, canfu dilyswyr welliant o ran tystiolaeth ddigonol i gefnogi asesiadau athrawon o fewn ysgolion unigol. Fodd bynnag, pery'r amrywiaeth rhwng ysgolion unigol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r ystod o dystiolaeth a ddarparwyd i gyfiawnhau lefel yn cael ei chefnogi gan nodiadau athrawon. Mae hyn yn aml yn cynnwys sylwadau athrawon o ddydd i ddydd ac adborth a ysgrifennwyd yn llyfr y dysgwyr, sy'n ddigon manwl i gefnogi'n llawn i lefel a ddyfarnwyd.

Yn y rhan fwyaf o achosion yr oedd y dilysydd yn cytuno â barn yr ysgolion. Fodd bynnag, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, roedd ychydig o broffiliau yn cynnwys tystiolaeth annigonol i'r dilysydd allu cytuno'r lefel. Mewn ychydig o ysgolion roedd tystiolaeth o ystod ac ansawdd annigonol i gefnogi'r dyfarniadau ar gyfer llafaredd, ac i raddau llai, darllen.

Yn bron bob un o'r ysgolion a ddilyswyd, defnyddiwyd egwyddor 'ffit gorau' yn effeithiol.

Y Camau Nesaf

Diogelu Asesiadau Athrawon - Rhaglen ddilysu allanol Adroddiad ar Gynnydd y Rhaglen - Medi 2016

- Darparu adborth i ysgolion gan gymdeithasau proffesiynol, awdurdodau lleol a'r consortia, erbyn: (Medi 2016)
- Yng ngoleuni unrhyw wersi a ddysgwyd o raglen 2016, cefnogi'r consortia wrth arolygu eu "Canllawiau ar gymedroli asesiadau athrawon ar gyfer ysgolion a chlystyrau 2015/16", a chanllawiau cysylltiedig, penodol i bynciau, yn (Tachwedd 2016)
- Cwblhau'r adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru (Rhagfyr 2016)
- Cwblhau deunyddiau enghreifftiol (Rhagfyr 2016)
- Datblygu cynllun amlinellol ar gyfer blwyddyn 3 y rhaglen – 2017-18 (Rhagfyr 2016)

Mae gwersi pwysig i'w dysgu o ddwy flynedd gyntaf y rhaglen. Defnyddir y rhain i ddatblygu'r rhaglen ddilysu ymhellach ar gyfer Blwyddyn 3 – 2017.